

# CARING FOR PEOPLE, KEEPING PEOPLE WELL

A PERSON'S CHANCE OF LEADING A HEALTHY LIFE IS THE SAME WHEREVER THEY LIVE AND WHOEVER THEY ARE



## Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol

2020/2030

## Fersiwn Hawdd ei Ddeall

## Rhagair



Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau arbenigol i bobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Y Bwrdd Iechyd yw prif ddarparwr gwasanaethau arbenigol i bobl yn ne Cymru ac, ar gyfer rhai gwasanaethau, Cymru gyfan a'r DU yn ehangach.

Rydym hefyd yn cynnal addysgu ac ymchwil ac yn chwarae rôl fawr yn economi Cymru. Rydym yn falch iawn o'r rôl rydym yn ei chwarae o fewn y GIG.

Fel un o'r sefydliadau GIG mwyaf a mwyaf cymhleth yn y DU, rydym yn wynebu heriau unigryw yn y ffordd rydym yn datblygu ein gwasanaethau, ein staff a'n hadeiladau i gyflawni ein nodau ar gyfer y dyfodol.

Mae nifer o heriau'n wynebu ein GIG modern. Gyda phoblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, prinder staff ac adeiladau ysbyty sydd wedi dyddio, mae'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn darparu gofal os ydym am ddarparu gofal diogel a chynaliadwy o safon uchel ar gyfer y dyfodol.

Yn fwy diweddar, mae effaith y pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau mawr ar ein gwasanaethau ac wedi cynyddu'r galw ar draws y GIG yn sylweddol.

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweld y gorau o'n GIG.

Mae ein staff wedi ymateb i'r her i ddarparu'r gofal gorau i'n cleifion er gwaethaf y galwadau.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau ymarferol i'r ffordd rydym yn trin ein cleifion.

Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i ni gyflymu rhai gwelliannau i wasanaethau.

Mae ein **Strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol** yn darparu'r cefndir ar gyfer popeth a wnawn:

Bod gofal iechyd yn cael ei ddarparu'n gynyddol i ffwrdd o ysbytai traddodiadol ac yn nes at gartrefi pobl

Darparu canlyniadau sy'n bwysig i'r claf

Darparu triniaeth safonol, wedi'i darparu'n effeithlon

Cefnogi ein pobl i fyw'n iach a hunanreoli cyflyrau lle bo'n addas.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein strategaeth a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol, y cam nesaf ar gyfer ein Bwrdd Iechyd yw darparu cynllun ar gyfer ailgynllunio ein gwasanaethau clinigol.

Bydd y rhaglen **Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol** yn helpu i drawsnewid y ffordd mae ein cleifion yn cael mynediad i'r gwasanaethau clinigol yn eu cartrefi, cymunedau ac yn yr ysbyty.

Bydd yn galluogi, yn datblygu ac yn cyflwyno cynllun ar gyfer newid dros y deng mlynedd nesaf a bydd yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau er mwyn eu darparu'n nes at y cartref lle y bo'n bosibl.

Lle y bydd angen gwasanaethau ysbyty, byddant yn cynnig y gofal gorau posibl.

Bydd y gwaith hwn yn darparu sylfaen ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru newydd - ysbyty a fydd yn ddatblygedig, yn fwy cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni ac yn cynnig gofal o'r radd flaenaf mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer canol yr 21ain ganrif.

Credwn fod angen i ni ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a wynebwn i ddarparu canlyniadau gwell i gleifion, profiad gwell i gleifion, gwerth gwell, boddhad gwell ar gyfer y timau o bobl sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd a bargaen well i Gymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r heriau presennol a'r gwerthoedd sy'n ategu'r gwaith o ailgynllunio ein gwasanaethau clinigol, ac yn gofyn i chi roi gwybod i ni beth sy'n bwysig i chi, o safbwynt ailgynllunio'r gwasanaethau clinigol ac ailadeiladu Ysbyty Athrofaol Cymru.

*Len Richards*  
*Prif Weithredwr*

*Charles Janczewski*  
*Cadeirydd Dros Dro*

*Stuart Walker*  
*Cyfarwyddwr Meddygol*  
*Cynllunio Strategol*

*Abigail Harris*  
*Cyfarwyddwr*

## Cynnwys

### **Pwy ydyn ni?**

Ein sefydliad a'r gwasanaethau a ddarparwn.

**06**

### **Beth yw ein gweledigaeth?**

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd fel rhan o'n strategaeth **Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol** a rhai o'r camau allweddol a gymerwyd tuag at ei chyflawni.

**08**

### **Pam mae angen i ni newid ein gwasanaethau clinigol?**

Yr achos dros newid, gan gwmpasu meysydd fel anghenion cynyddol y bobl a wasanaethwn a'r pwysau ar ein gwasanaethau a'n staff.

**10**



**Beth yw ein dull o drawsnewid gwasanaethau clinigol?**  
Sut ydyn ni'n bwriadu gwella gwasanaethau. **14**

**Pa wasanaethau clinigol y gallai fod angen eu darparu'n wahanol?** Sut y gallai'r newidiadau a gynigir effeithio arnoch chi.\_\_\_\_ **16**

**Ble allai gwasanaethau clinigol gael eu darparu?**  
Gweledigaeth ar gyfer gofal yn yr ysbyty, y gymuned ac yn y cartref. **20**

**Ystyriaethau pwysig** **24**

**Beth yw'r camau nesaf?**  
Sut ydyn ni'n bwriadu profi ein syniadau, gyda'ch help chi. **26**

**Sut allwch chi ddweud eich dweud?**  
Sut y gallwch chi roi eich adborth i ni. **27**

**Beth fyddwn yn ei wneud gyda'ch adborth?**  
Sut y bydd eich adborth yn helpu i lunio ein gwasanaethau. **28**

## Pwy ydyn ni?

Rydym yn cynllunio, trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer oddeutu 500,000 o bobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Rydym hefyd yn darparu dros 100 o wasanaethau arbenigol ar gyfer ein rhanbarth, y darperir rhai o'r rhain ar gyfer Cymru gyfan.

Rydym yn cyflogi oddeutu 14,000 o staff sy'n gweithio ar draws ystod o safleoedd ysbyty ac yn darparu gofal yng nghartrefi pobl ac mewn lleoliadau cymunedol hefyd.

Rydym yn sefydliad addysgu mawr sydd â chysylltiadau agos â'r prifysgolion. Gyda'n gilydd rydym yn hyfforddi ein gweithlu i'r dyfodol.

Rydym hefyd yn darparu cyfran fawr o'r gweithgarwch ymchwil yng Nghymru ac yn falch o fod ar y rheng flaen o safbwynt triniaethau a therapïau newydd sy'n ddyfeisgar ac yn arloesol.

Mae'n costio oddeutu £1.4 biliwn y flwyddyn i ddarparu ein gwasanaethau.

## Ein gwasanaethau

Rydym yn rheoli ac yn darparu'r gofal a'r driniaeth y mae pobl yn eu derbyn mewn ysbytai, canolfannau iechyd a meddygfeydd, practisau meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, optegwyr a lleoliadau eraill, gan gynnwys gofal yn y gymuned. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth hybu iechyd ac iechyd y cyhoedd.

**Iechyd y cyhoedd:** Gwella iechyd ein pobl a sicrhau bod pawb yn cael yr un gofal, ble bynnag maent yn byw. Darparu gwybodaeth a chyngor ar ofal iechyd ataliol gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a lles.

**O fewn Gofal Sylfaenol:** Dyma 'ddrws blaen' ein sefydliad a'r pwynt cyswllt cyntaf â'r GIG ar gyfer ein cleifion fel arfer. Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys practisau meddygon teulu, fferyllfeydd, deintyddion, optegwyr a chlinigau iechyd rhywiol.

Yn lleol, darperir ein gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyfan gwbl o fewn tair ardal: Gogledd a Gorllewin Caerdydd, De a Dwyrain Caerdydd, a Bro Morgannwg.

**Yn y gymuned:** Darparwn wasanaethau gofal iechyd yn uniongyrchol i gartrefi pobl (nyrsio ardal, podiatreg, ymwelwyr iechyd, a gwasanaethau nyrsio cymunedol plant).

Rydym yn cynnig asesiadau clinig a thriniaethau yn ein canolfannau iechyd lleol ac mewn ysbytai cymunedol fel Dewi Sant a'r Barri.

**Yn ein hysbytai arbenigol:** Mae Ysbyty Athrofaol Llandochoau (YALI), Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) ac Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru yn darparu ystod eang o driniaethau meddygol a llawdriniaethol ar gyfer cleifion mewnol (ar ein wardiau) a chleifion allanol (yn y clinig).

Rydym yn gwasanaethu pobl ledled Cymru, a'r DU yn aml, gan gynnig triniaeth arbenigol fel niwrolawdriniaeth a gwasanaethau cardiaidd.

## Beth yw ein gweledigaeth?

Mae ein gweledigaeth fel Bwrdd Iechyd yn syml; dylai siawns rhywun o fyw bywyd iach fod yr un peth, ni waeth pwy ydyw na ble mae'n byw. I gyflawni hyn, mae angen i ni wella ein system iechyd gyfredol i sicrhau ei bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Rydym am gyflawni gofal cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar ddull 'cartref yn gyntaf'.

Rydym am osgoi niwed, gwastraff ac amrywiaeth yn ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy effeithlon a chynaliadwy nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Rydym am ddarparu canlyniadau sy'n bwysig i gleifion a'r cyhoedd, gan sicrhau ein bod oll yn gweithio gyda'n gilydd i greu system iechyd rydym yn falch ohoni.

Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r nodau hyn yw **Llunio ein llesiant i'r dyfodol**, cynllun 10 mlynedd ar draws y system a ddylai drawsnewid ein gwasanaethau er gwell.

Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi cymryd rhai camau tuag at y nod hwn.



- **Gwasanaethau cymunedol** – Mae Cam 1 o'r broses o wella ein gwasanaethau cymunedol wedi dechrau, gyda chynlluniau i ddatblygu nifer o Ganolfannau Iechyd a Lles a Hybiau Lles.

Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i gael gofal yn nes at eu cartrefi.

- **Y lle iawn, y tro cyntaf** – Yn ddiweddar gwnaethom lansio Dewis Sylfaenol a CAF 24/7. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyngor iechyd, gofal a thriniaeth iawn ar gyfer eu hanghenion, fel eu bod yn gweld y person iawn, y tro cyntaf yn eu cymunedau lleol, neu yn yr Uned Frys (os mai dyna'r lle iawn ar gyfer eu gofal).

Mae hyn yn golygu y bydd cleifion yn cael y gofal gorau a chaiff amseroedd aros eu gostwng hefyd.

- **Gwasanaethau arbenigol rhanbarthol** – Yn 2020, gan weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn Ne Cymru, gwnaethom lansio'r Ganolfan Trawma Mawr fel rhan o rwydwaith rhanbarthol yn Ne Cymru.

Bydd y rhwydwaith newydd yn gwella canlyniadau i gleifion sydd wedi'u brifo'n ddifrifol. Mae'r Ganolfan Trawma Mawr sydd wedi'i lleoli yn YAC yn darparu canolfan ar gyfer triniaeth arbenigol.

Mae gwella ein gwasanaethau clinigol yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i nodi 'beth mae da yn ei olygu' ac i wella ein gwasanaethau i sicrhau y darperir gofal eithriadol yn ein hysbytai, yn ein cymunedau ac yn y cartref.



# Pam mae angen i ni newid ein gwasanaethau clinigol?

## Ein poblogaeth

### Twf poblogaeth -

Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Er bod niferoedd cyffredinol ym Mro Morgannwg yn gymharol statig, mae cyfanswm poblogaeth Caerdydd a'r Fro bellach wedi mynd y tu hwnt i 500,000 am y tro cyntaf. Erbyn 2029, bydd y rhif hwn wedi codi 20% yn gyffredinol. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 0.2% yng Nghymru dros yr un cyfnod.

### Mae pobl yn heneiddio -

Ledled Cymru mae'r boblogaeth yn heneiddio. Mae oed cyfartalog pobl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn codi'n raddol. Disgwyliwn y bydd cynnydd o 40% yn nifer y bobl sy'n 85 oed ac yn hŷn ym Mro Morgannwg dros y 10 mlynedd nesaf.

Pobl hŷn sy'n dueddol o wneud y defnydd mwyaf o ofal iechyd sy'n gysylltiedig â materion yn ymwneud ag oedran, megis dementia, ac effaith cyflyrau hirdymor lluosog.

### Mae gan fwy o bobl salwch hirdymor a salwch meddwl hirdymor -

Mae nifer y bobl sydd â mwy nag un salwch hirdymor yn codi. Mae salwch meddwl yn cyfrif am gyfran fawr o salwch ac anabledd yng Nghymru. Mae hefyd yn gysylltiedig ag iechyd corfforol gwaeth, addysg gwael a diweithdra.

### Mae pobl yn fwy unig -

Mae tua chwarter y bobl sy'n agored i niwed yn ein hardal yn nodi eu bod yn teimlo'n unig rywfaint o'r amser neu drwy'r amser.

Mae ynysigrwydd cymdeithasol yn gysylltiedig â lles meddyliol a disgwyliad oes is.

## Ein partneriaid

Rydym am wella ein dull o gefnogi pobl Caerdydd a Bro Morgannwg i gadw'n iach, yn ogystal â thrin pobl os byddant yn mynd yn sâl. Gwyddom na allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, ac mai dim ond rhan fach sydd gan y gwasanaethau iechyd i'w chwarae yn y broses honno. Mae tai da, trafnidiaeth, cyflogaeth a lles economaidd, addysg a maes celfyddyd a diwylliannol ffyniannus yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach.

Er mwyn cadw ein poblogaeth yn iach ac yn annibynnol, rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a'r Trydydd Sector (sefydliadau'r sector gwirfoddol) i gynllunio a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Wrth i ni gynllunio mwy o ofal a thriniaeth yn nes at gartref, daw'r partneriaethau hyn hyd yn oed yn bwysicach.

## Iechyd ein poblogaeth

**Marwolaeth gynamserol a ffyrdd o fyw afiach** – Ymhlith oedolion, prif achosion marwolaeth gynamserol ac anabledd yw canser a chlefydau cylchredol.

Mae ffordd o fyw sydd ddim yn iach, fel ysmegu, deiet wael a diffyg ymarfer corff yn cael effaith fawr ar y clefydau hyn. Mae cyfraddau goroesi ar gyfer canser yng Nghymru ymhlith y gwaethaf yn Ewrop.

**Anghyfartaleddau iechyd** - Mae cyswllt clir rhwng anghyfartaleddau cymdeithasol ac anghyfartaleddau iechyd. Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae lleihau anghyfartaleddau iechyd yn arwain at fywydau hirach, iachach.

**Clefydau newydd** - Mae feirysau newydd fel COVID-19 yn golygu bod angen i ni allu ymateb yn gyflym yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i edrych ar yr hyn y mae'r pandemig presennol yn ei olygu o safbwynt sut fyddwn yn gweithio yn y dyfodol.

## Ein Pobl

Er mwyn i ni allu parhau i ddarparu ein gwasanaethau clinigol, rhaid bod staff yn gallu gweithio a hyfforddi mewn amgylchedd gwaith sy'n cyflawni safonau cenedlaethol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn darparu'r canlyniadau gorau ar gyfer cleifion ac yn allweddol i recriwtio a chadw'r staff gorau.

## Ein triniaethau a'n technoleg

Mae gofal iechyd yn datblygu'n gyflym. Caiff symiau enfawr o arian yn fyd-eang eu dyrannu ar gyfer ymchwil a syniadau gofal iechyd yn ogystal â thechnoleg ddigidol.

Mae ein gweithgareddau ymchwil a'n gwasanaethau clinigol yn ein cadw ar flaen y gad o safbwynt y datblygiadau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau megis:

**Meddygaeth fanwl ac ataliaeth fanwl** - Wrth i ni gael dealltwriaeth well o wybodaeth eneteg, rydym mewn sefyllfa well i drin a helpu i atal clefydau fel canser.

**Profion pwynt gofal** –Mae dod â phrofion a diagnosteg yn nes at gleifion a darparwyr gofal yn lleihau'r angen i gleifion deithio i'r ysbyty.

**Technoleg ddigidol** - system ddigidol sy'n galluogi pobl i ddewis gofal yn nes at gartref fel apwyntiadau dilynol ar fideo, gwell cyfathrebu fel cofnodion gofal wedi'u rhannu rhwng darparwyr y GIG, a gwelliannau mewn systemau digidol sy'n galluogi staff i ryddhau eu hamser i ganolbwyntio ar ofal.

## Ein hadeiladau

Gall adeiladau gofal iechyd eu hunain gael effaith fawr ar ganlyniadau cleifion a lles. Mae safonau adeiladu ysbytai modern

yn galluogi digon o olau naturiol, preifatrwydd, tawelwch, mynediad i awyr iach, a'r gwasanaethau iawn i ddiwallu anghenion rheoli heintiau modern. Dylai hefyd fod digon o le i alluogi pobl i wneud ymarfer corff a chyflymu eu hadferiad neu baratoi ar gyfer llawdriniaeth.

Gall ysbytai hefyd gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd gan gynnwys defnydd tir, defnydd o ynni, cynhyrchu allyriadau carbon, rheoli gwastraff, sŵn, a'r defnydd o sylweddau peryglus.

Wrth ailgynllunio ein gwasanaethau, anelwn at fod yn arweinwyr y byd o ran cynaliadwyedd, gan leihau ein hól-troed carbon a chreu adeiladau sy'n cyd-fynd â'u lleoliadau preswyl.

Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r ysbyty mwyaf yng Nghymru. Wedi'i gynllunio yn y 1950au, nid yw'n addas i'r diben mwyach, ac ni all ddarparu gwasanaethau clinigol modern yn ei adeiladau.

## **Ein heconomi**

Mae'r sector gwyddorau bywyd yn gyfrannwr allweddol i'r economi yng Nghymru ac mae ganddo'r potensial i dyfu'n sylweddol dros y ddegawd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi llawer o bwys ar y sector gwyddorau bywyd. Fel Bwrdd Iechyd, mae gennym rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.

Fel un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop, mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rôl allweddol yn yr economi leol a'r farchnad lafur.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r cyflogwyr mwyaf yn y rhanbarth gyda dros 14,000 o staff.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau partner lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i dalu'r cyflog byw a chynnig cyfleoedd i staff ddatblygu a dysgu lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwyddom fod iechyd gwael yn cael effaith sylweddol ar yr economi yn fyd-eang. Drwy ddilyn ffyrdd o fyw iachach a gwneud gwasanaethau yn fwy hygyrch gallwn leihau baich ariannol iechyd gwael ar bawb.

## Beth yw ein dull o wella gwasanaethau clinigol?

Bydd ein rhaglen **Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol** yn cefnogi'r gwaith o wella ein gwasanaethau clinigol.

### Bydd y rhaglen yn gwneud y canlynol:

- Ystyried sut y dylai ein gwasanaethau clinigol wynebu ac ymateb i heriau'r dyfodol, ac awgrymu'r ffyrdd gorau i ni wella gofal.

Bydd hyn yn cynnwys ble y dylid lleoli gofal yn ogystal â'r offer a'r adnoddau a ddylai ei gefnogi.

- Datblygu modelau gofal a fydd yn cynnwys ailgynllunio sut y darperir gwasanaethau yn ein hysbytai, yn ein cymunedau ac yn y cartref.
- Goruchwylio cynlluniau o safbwynt sut y caiff pobl wybodaeth, diagnosis a thriniaeth, gan sicrhau y darperir gofal yn y cartref neu mor agos i'r cartref â phosibl.
- Gweithio gyda'n partneriaid lleol i gytuno ar y cyd ar ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau clinigol i Gymru gyfan.
- Rhoi blaenoriaeth i wella'r gwasanaethau hyn a chanolbwyntio ar ddiogelwch cleifion, canlyniadau cleifion, cynaliadwyedd a chost.

### Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- Diwallu anghenion ein poblogaeth nawr ac yn y dyfodol.



- Darparu'r canlyniadau gorau ar gyfer ein cleifion.
- Creu a gwneud y mwyaf o weithlu hyblyg.
- Gwella ein hoffer a'n technoleg arbenigol.
- Lleihau dyblygu er mwyn sicrhau profiad gwell i'r cleifion.
- Gwella sut mae cleifion yn symud drwy'r gwasanaethau i ddefnyddio ein hysbytai yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.
- Cefnogi anghenion y gwasanaeth gofal iechyd yn y dyfodol o fewn adeiladau modern sy'n addas i'r diben.
- Darparu mynediad amserol i driniaeth frys a thriniaeth wedi'i chynllunio yn yr ysbyty.
- Bod yn bartner gwell.
- Canolbwyntio ar gadw pobl yn well.

Byddwn yn darparu'r rhaglen hon gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Bydd ein cleifion wrth wraidd y rhaglen.
- Caiff ei harwain yn glinigol.
- Caiff ei datblygu gydag adborth gan gleifion a phartneriaid.
- Bydd yn gweithio ar draws llwybrau cyfan ar gyfer cyflyrau, salwch ac anafiadau allweddol.
- Bydd yn gweithio mewn undod â rhaglenni megis digidol, y gweithlu a datblygu sefydliadol, ac ailadeiladu YAC.
- Bydd yn dysgu o syniadau cynharach, yn eu defnyddio ac yn adeiladu arnynt.
- Bydd yn gysylltiedig iawn â chynlluniau gwasanaeth ar gyfer gwella gwasanaethau fel iechyd y cyhoedd, iechyd meddwl,

gwasanaethau plant a menywod a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.

## Pa wasanaethau clinigol y gallai fod angen eu darparu'n wahanol?

Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau clinigol i bobl ag anghenion gofal mewn argyfwng, anghenion brys ac anghenion llai brys.

Mae rhai o'r anghenion gofal hyn yn rheolaidd a chyffredin, ac mae eraill yn fwy anarferol.

### Gofal mewn Argyfwng a Gofal Brys

Darperir gofal mewn argyfwng i gleifion sydd â chyflyrau difrifol sy'n bygwth bywyd neu a allai newid bywyd, ac sy'n gofyn am driniaeth ddwys ar unwaith.

Darperir gofal brys i gleifion sydd â phroblem y mae angen rhoi sylw iddi y diwrnod hwnnw ond nad yw'n bygwth bywyd.

Yn ogystal â'r Uned Frys, darperir y gofal hwn mewn meysydd fel gofal critigol, meddygaeth aciwt a llawfeddygaeth.

Mae'r elfen hon o'r gwasanaethau iechyd o dan bwysau dwys a chynyddol - wedi'i gyrru gan y galw cynyddol a phrinder staff.

#### **Felly mae angen i ni wneud y canlynol:**

- Bod â system ar waith sy'n cyfeirio cleifion at y gwasanaeth iawn, ar yr amser iawn ac yn y lle iawn.
- Parhau i ddatblygu systemau effeithiol yn y maes gofal sylfaenol i gydweithio a lleihau'r pwysau ar ein gwasanaethau.
- Cynnig rhai o'r gwasanaethau brys hyn yn nes at gartref mewn lleoliad cymunedol.

- Dod o hyd i ffyrdd gwahanol i'n staff sicrhau y gellir darparu'r gofal hwn yn ddiogel 24 y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
- Ystyried lle y darperir y gwasanaethau i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

### **Beth mae hyn yn ei olygu i fi?**

Gallai hyn olygu arbed amser a chostau o safbwynt teithio i gael triniaeth a phrofion. Byddai ymchwiliadau fel pelydrau-X, sganiau CT a rhai triniaethau yn cael eu cynnal yn eich cymuned leol mewn Canolfan Iechyd a Lles.

Gallai hyn olygu mynychu lleoliad gwahanol i'ch ysbyty lleol er mwyn cael triniaeth mewn argyfwng neu driniaeth frys.

Gallai olygu ffonio cyn ymweld â'r ysbyty i sicrhau bod unrhyw amser aros yn cael ei leihau, neu gwblhau ffurflen ar-lein ymlaen llaw fel bod gan eich fîm clinigol yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ganolbwyntio arnoch chi yn ystod eich apwyntiad.

### **Triniaethau a gynlluniwyd ac apwyntiadau**

Rhoddir gofal a gynlluniwyd i bobl y gellir trefnu eu gofal a'i gynllunio ymhell cyn y driniaeth - er enghraifft, cyfres o driniaethau ar gyfer cyflwr neu salwch hirdymor neu aciwt.

Mae'r gwasanaethau hyn o dan bwysau dwys a disgwylir i'r galw gynyddu wrth i'n poblogaeth dyfu a heneiddio.

Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn cystadlu â gwasanaethau mewn argyfwng a rhai brys, gan arwain at ganslo ac oedi gofal.

### **Felly mae angen i ni wneud y canlynol:**

- Arafu'r galw cynyddol am wasanaethau drwy weithio i wella iechyd ein pobl.
- Trefnu gofal mewn ffordd well, gyda'r bobl iawn i drin cleifion a'r risg o ganslo ac oedi yn cael ei lleihau.

- Lle bo'n bosibl, cynnig rhai gwasanaethau yn y cartref neu o fewn cymuned leol unigolyn.
- Meddwl am wahanu'r gwasanaethau hyn oddi wrth wasanaethau gofal mewn argyfwng, a allai olygu symud mwy o'r gwasanaethau i ffwrdd o ble y'u darperir ar hyn o bryd.

Byddai gwneud hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i'r rhai sy'n cael gofal a gynlluniwyd.

### **Beth mae hyn yn ei olygu i fi?**

Gallai hyn olygu y gallech gael cynnig apwyntiadau gyda meddyg ar-lein, dros y ffôn, yn y cartref neu yn eich cymuned leol yn hytrach na dod i'r ysbyty.

Gallai olygu y byddwch yn gallu cael profion, ymchwiliadau fel pelydrau-X a hyd yn oed rhai triniaethau yn eich cymuned leol mewn Canolfan Iechyd a Lles.

Gallai hyn olygu, pan fydd angen i chi ddod i'r ysbyty, y byddwch yn cael yr arbenigwyr a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch i sicrhau nad yw eich arhosiad yn yr ysbyty yn hirach nag sydd ei angen.

Gallai hyn olygu hefyd na fydd y gwasanaethau hyn wedi'u lleoli yn eich ysbyty agosaf.

### **Gwasanaethau arbenigol iawn**

Mae rhai gwasanaethau clinigol yn darparu gofal ar gyfer cyflyrau, salwch neu anafiadau cymhleth neu anghyffredin. Fe'u gelwir yn aml yn wasanaethau trydyddol. Darperir y gwasanaethau hyn fel arfer mewn un lleoliad ysbyty o fewn rhanbarth, yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu lleol neu feddyg ymgynghorol mewn ysbyty lleol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio gwasanaeth arbenigol, caiff y rhan fwyaf o'u gofal ei ddarparu yn eu hysbyty lleol. Efallai mai dim ond rhan fach, ond rhan bwysig iawn o'i gofal, fydd eu cyswllt â'r gwasanaeth trydyddol.

Bydd gan rai pobl â chyflyrau hirdymor berthynas barhaus â'r gwasanaeth arbenigol.

Lle mae gwasanaethau yn arbenigol, mae angen i ni sicrhau eu bod yn gynaliadwy a bod yna staff sydd â hyfforddiant a sgiliau arbenigol ar gael i drin anafiadau, salwch a chyflyrau.

### **Felly mae angen i ni wneud y canlynol:**

- Gweithio gyda'n partneriaid ledled Cymru i greu cynllun clir ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau.
- Creu canllawiau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn ar draws gwasanaethau a sefydliadau gwahanol.
- Datblygu a darparu cynlluniau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn i bobl ledled Cymru gydag ansawdd a diogelwch gwell a fydd yn gweithio nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â gwasanaethau a chanlyniadau gwell.

### **Beth mae hyn yn ei olygu i fi?**

Gallai olygu y bydd angen i chi deithio ymhellach i weld arbenigwr, ar gyfer rhai elfennau penodol o'ch triniaeth.

Gallai olygu bod apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnig yn yr ysbyty lleol, yn rhithwir yn y cartref, neu mewn cymunedau lleol.

## **Ble allai gwasanaethau clinigol gael eu darparu yn y dyfodol?**

### **Yn y cartref**

Rydym am allu darparu ein gofal critigol yn y lle y mae'r rhan fwyaf ohonom am fod, drwy gael mwy o driniaethau yn y cartref.

Yn ystod y pandemig COVID-19, mae ein system gofal iechyd wedi gorfod dod o hyd i ffyrdd o ddarparu mynediad i



wasanaethau yn ddiogel ac yn nes at y cartref. Gobeithiwn allu gwella'r gwasanaethau hyn ymhellach.

Wrth i dechnoleg barhau i ddatblygu, bydd mynediad at wasanaethau ar gael o safleoedd ar wahân i brif safleoedd yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau ac adolygiadau cleifion allanol y gellid eu cynnal yn rhithwir, gan ddarparu canlyniadau profion a gwneud gwaith monitro drwy gyfrwng apiau neu dechnoleg ffôn clyfar os yw hyn yn addas i anghenion y cleifion.

Cydnabuwn na fydd gan bawb yr offer, y wybodaeth na'r gallu i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb lle bydd hynny orau i'r claf unigol.

## Yn y gymuned

Rydym wedi bod yn ymgymryd â'n rhaglen **Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn ein Cymuned** ers nifer o flynyddoedd. Mae'n cynnwys cynlluniau ar gyfer nifer o adeiladau cymunedol newydd er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a lles yn nes at eu cartrefi.

Mae'r broses o ymgysylltu â chymunedau lleol a chlinigwyr a fydd yn darparu gwasanaethau yn ein Canolfannau Iechyd a Lles a'n Hybiau Lles wedi ein helpu i greu ein model gwasanaeth, a fydd yn cael ei deilwra i anghenion pob ardal a chlwstwr.

Gallai gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector (gwirfoddol ac nid er elw), yn ogystal â gwasanaethau clinigol, gael eu darparu yn y canolfannau a'r hybiau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys; grwpiau cymorth gan gymheiriaid, cymorth i gael gafael ar wasanaethau a datblygu sgiliau.

## Canolfan Iechyd a Lles

Rydym yn bwriadu creu Canolfannau Iechyd a Lles yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, y Barri a Gogledd Caerdydd. Byddwch yn gallu cael gafael ar ystod o wasanaethau yn cynnwys:

- Gofal symudol ar gyfer asesiad cyflym o gleifion sydd â chyflyrau penodol heb yr angen am dderbyniad mewn argyfwng i'r ysbyty
- Gwasanaethau profi pwynt gofal, fel pelydr-X ffilm plaen ac uwchsain
- Gwasanaethau galluogi ac ailalluogi gwell
- Ystod o wasanaethau cleifion allanol a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau
- Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a Gwasanaethau Plant
- Cymorth a chynghor nad yw'n feddygol e.e. i ofalwyr

## Hybiau Lles

Ein cynllun yw datblygu Hwb Lles ym mhob un o'n naw Clwstwr Gofal Sylfaenol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar ddarparu model iechyd cymdeithasol, naill ai trwy ddatblygu canolfannau a hybiau presennol (e.e. canolfannau iechyd, canolfannau hamdden, a hybiau cymunedol yr awdurdod lleol) neu drwy adeiladau newydd mewn ardaloedd sy'n tyfu'n gyflym, fel y rhai sy'n cael eu datblygu ym Maelfa. Bydd y rhain yn darparu gwasanaethau megis:

- Gwasanaethau Meddygon Teulu
- Bydwreigiaeth cymunedol
- Gwasanaethau plant
- Iechyd meddwl sylfaenol

## Yn yr ysbyty - gweledigaeth ar gyfer dwy ganolfan ragoriaeth

Y nod ar gyfer ein dau ysbyty aciwt mawr yw eu bod yn parhau i ddatblygu fel dwy ganolfan ragoriaeth i'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn cael eu derbyn am yr amser byrraf posibl ar gyfer gofal y gellir ond ei roi yn yr ysbyty.

### Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC)

Fel ysbyty addysgu aciwt mawr sy'n gwasanaethau ein poblogaeth leol ac yn darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer Cymru gyfan, mae gwasanaethau clinigol YAC yn cynnwys Gofal Critigol, Llawdriniaeth Frys, Niwrolawdriniaeth, Niwroleg, Wroleg, Strôc Acíwt, Trawma Mawr, Trawsblaniad, Radioleg, Cardioleg, Obstetreg, Gynaecoleg, Llawdriniaeth Canser, Meddygaeth Gyffredinol a Gofal yr Henoed.

Bydd gwasanaethau clinigol ar y safle ysbyty hwn yn parhau i fod:

- Yn arbenigol iawn (trydyddol)
- Ar gyfer y cleifion mwyaf sâl, sydd ag anghenion cymhleth, arbenigol
- Ar gyfer cleifion sydd angen gofal mewn argyfwng 24/7
- Yn canolbwyntio ar ymchwil ac arloesedd

### Cyfle am gyfleuster arloesol newydd

Nid yw adeiladau presennol YAC yn gallu darparu'r gwagle a'r offer sy'n ofynnol gan feddygaeth fodern mwyach.

Rydym yn bwriadu adeiladu ysbyty newydd a fydd yn cynnig:

- Amgylchedd gwell i'n cleifion a'n staff
- Amgylchedd ar gyfer ymchwil ac addysgu a fydd yn parhau i ffynnu
- Cyfleuster sy'n fwy cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni.

## Ysbyty Athrofaol Llandochau (YALI)

Fel safle ysbyty mawr sy'n gofalu am bobl Caerdydd a Bro Morgannwg, disgwyliwn i YALI barhau i arbenigo mewn gofal ar gyfer cleifion sâl ond sefydlog, nad ydynt yn dibynnu ar ofal critigol ar gyfer eu derbyniad i'r ysbyty neu eu harhosiad fel cleifion mewnol.

Ein nod yw creu gwasanaethau clinigol ar gyfer y safle ysbyty hwn ar gyfer:

- Cleifion y mae angen gofal ysbyty arnynt ond maent yn sefydlog
- Cleifion y gallai fod angen llawdriniaeth arnynt sy'n rheolaidd ac wedi'i gynllunio
- Ar gyfer cleifion sydd angen gwasanaeth adsefydlu arbenigol
- Ar gyfer cleifion sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol.

## Ystyriaethau pwysig

Wrth i ni newid a gwella sut a ble y byddwn yn cynnig gwasanaethau clinigol, mae pethau pwysig i'w hystyried a fydd yn ein helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl.

## Ein gweithlu

Rydym yn rhoi cynllun ar waith i sicrhau bod ein gweithlu gofal iechyd yn y dyfodol yn gynaliadwy, yn hyblyg ac yn ddeallus.

Ein staff yw ein hadnodd pwysicaf - mae'n rhaid bod gan ein gwasanaethau clinigol y staff iawn, yn y lle iawn.

Bydd hyn yn golygu tyfu a datblygu ein gweithlu i ddiwallu anghenion ein gwasanaethau yn y dyfodol.

## **Egwyddorion allweddol wrth edrych ar weithlu'r dyfodol:**

- Gofalu am ein pobl - gyda chymorth iechyd a lles o ansawdd i bawb.
- Perthyn i'r GIG - gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael â'r gwahaniaethu y mae rhai staff yn ei wynebu.
- Helpu ein staff i feithrin sgiliau a gwybodaeth newydd.
- Dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio a darparu gofal - gan wneud defnydd da o'r ystod lawn o sgiliau a phrofiad ein staff.
- Tyfu ar gyfer y dyfodol - sut rydym yn recriwtio ac yn cadw ein pobl, ac yn croesawu cydweithwyr sydd am ddychwelyd.

## **Technoleg ddigidol**

Mae ein systemau digidol yn helpu ein staff a'n cleifion drwy ddarparu'r gofal gorau posibl lle bynnag y rhoddir gofal.

Gwyddom fod 85% o bobl yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngrwyd - mae hynny'n golygu bod 15% o bobl nad ydynt yn gwneud.

Gellir dadansoddi'r defnydd o'r rhyngrwyd fel a ganlyn:

- Pobl â salwch hirdymor neu anabledd - 74%
- Heb anabledd - 90%
- 65-74 oed - 72%
- 16-49 oed - 97%

Mae hyn yn golygu y bydd datrysiadau digidol yn addas i lawer o'n cleifion ond nid i bob un ohonynt, felly bydd gwasanaethau wyneb yn wyneb bob amser ar gael i bobl sydd eu hangen. Credwn fod yr elfen ddigidol yn helpu ac nid yn cymryd lle'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.

Yn y dyfodol, gallai technoleg ddigidol eich galluogi i wneud y canlynol:



- Cael mynediad at eich cofnod iechyd a gofal, adroddiadau a chanlyniadau eich hunain yn ogystal â gweld eich apwyntiadau a'u haildrefnu ar-lein.
- Cyfathrebu'n ddiogel â thimau sy'n darparu eich gofal.
- Rhannu eich gwybodaeth iechyd a gofal ag unrhyw un arall a ddymunwch.
- Uwchlwytho gwybodaeth o ddyfeisiau y gellir eu gwisgo.

## Trafnidiaeth a theithio

Mae tystiolaeth yn dangos effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles ar draws cymdeithas sy'n bosibl os ydym yn beicio ac yn cerdded lle bo'n bosibl, lleihau llygredd aer, a chanolbwyntio ar gynllunio cymunedau trefol a gwledig sy'n atyniadol ac wedi'u cysylltu'n dda.

Gallai datblygiadau technolegol diweddar hefyd helpu yn hyn o beth.

Gellid gwella iechyd a lles yn ein cymunedau yn sylweddol os daw teithio llesol yn norm ar gyfer teithiau byr, defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach, gan arwain at wella ansawdd aer.

Er mwyn gwneud gwelliant sylweddol a pharhaus i'n hiechyd a'n lles mae angen i ni gymryd camau gweithredu pendant nawr, a thros y 10 mlynedd nesaf.

## Beth yw'r camau nesaf?



1. Rydym am brofi ein meddylfryd o safbwynt yr angen i drawsnewid ein gwasanaethau, yn seiliedig ar gael dealltwriaeth lawn o'r heriau sy'n wynebu ein gwasanaethau a'r buddion y gellid eu cael drwy eu darparu'n wahanol.

2. Mae angen i ni ddarganfod pa wasanaethau clinigol y mae angen eu newid drwy siarad â'n cleifion a'n staff, dan

arweiniad meddygon.

3. Byddwn yn trafod ein modelau gofal i'r dyfodol yn ein hysbytai, ein cymunedau ac yn y cartref.

4. Rydym am gael eich safbwyntiau ar gynigion mwy manwl ar sut y gallai gwasanaethau newid e.e. ar symud rhai gwasanaethau rhwng ein hysbytai, y gymuned a'r cartref.

5. Byddwn yn dechrau gwneud newidiadau i'n gwasanaethau, ein hadeiladau, ein gweithlu a'n seilwaith digidol.

## Sut allwch chi ddweud eich dweud?

Rydym am glywed gennych ynghylch y syniadau yn y ddogfen hon.

Mae'n bwysig bod cymaint o bobl â phosibl yn cael gwybod am y rhaglen hon ac yn rhannu eu safbwyntiau.

Bydd eich meddyliau a'ch safbwyntiau yn ein helpu i lunio ein meddylfryd.

Byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus agored mewn partneriaeth â Chyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn ar ein gwefan:

[www.shapingourfuturewellbeing.com](http://www.shapingourfuturewellbeing.com)

Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni, er mwyn cael gwybod mwy am y cynlluniau arfaethedig ac i gwblhau ein ffurflen adborth fyr erbyn **19 Ebrill 2021**.

E-bostiwch: [engage.cav@wales.nhs.uk](mailto:engage.cav@wales.nhs.uk)

Chwiliwch am **#LlunioEinCAF** ar y cyfryngau cymdeithasol

## **Beth fyddwn yn ei wneud gyda'ch adborth?**

Rydym yn cynnal ymarfer ymgysylltu 6 wythnos o 1 Mawrth 2021 i 19 Ebrill 2021.

Ar ôl 19 Ebrill 2021 byddwn yn:

- Rhannu eich adborth gyda Chyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg.
- Ystyried yr adborth ac yn ysgrifennu adroddiad arno a sut i symud ymlaen.
- Siarad â'r Cyngor Iechyd Cymuned am yr adborth, canlyniadau a'r camau nesaf.
- Rhoi gwybod i chi am yr adborth, y canlyniadau a'r camau nesaf yn ein cynlluniau i wella gwasanaethau clinigol.

**Diolch i chi am gymryd rhan.**

